# Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer

## Croeso i'r Digwyddiad Ymgysylltu

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn paratoi i gyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer y Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer arfaethedig a'r gwaith cysylltiedig.



Cymerwch eich amser i ystyried yr wybodaeth sydd ar gael.

Mae cynrychiolwyr Cyngor Castell-nedd Port Talbot a'u hymgynghorwyr dylunio, Cynllun Gofodol Cymru (CGC) yn hapus i ateb unrhyw un o'ch cwestiynau a thrafod unrhyw agweddau ar y prosiect gyda chi.

Mae eich adborth yn hanfodol a bydd yn ein helpu i lunio ein cynigion.

Gallwch gael mynediad i'n holiadur trwy sganio'r cod QR hwn neu lenwi holiadur papur yn y digwyddiad hwn.

Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer – Dweud Eich Dweud

Bydd yr holiadur ar agor rhwng dydd Mercher 13 Mai a dydd Mercher 24 Mehefin 2026.

# Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer

## Y Cynllun

Mae'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghwm Afan yn rhan annatod o gynnal cysylltedd rhwng pentrefi a chymunedau lleol Cymer, Afandale, Abercregan a Glyncorrwg, gan ganiatáu i bobl gael mynediad at gyfleusterau, gwasanaethau hanfodol a chefnogi'r economi leol.

Mae'r rhwydwaith hwn yn cynnwys y ddwy hen bont reilffordd ym mhen dwyreiniol Heol Maesteg, ac mae un ohonynt yn adeiledd diffygiol, yr ydym yn bwriadu ei ddymchwel fel rhan o'n cynigion.

Er mwyn mynd i'r afael â'r angen i wella symudiad ym mhentref Cymer a phryderon diogelwch, rydym yn cynnig sawl newid sy'n ffurfio Cynllun Ailalinio Ffyrdd Cymer, gan gynnwys:

- Ailalinio newydd sy'n cysylltu Heol yr Ysgol a Heol Maesteg
- Ffordd fynediad newydd i'r Orsaf Dân
- Gwelliannau i'r priffyrdd ar hyd rhannau o Ffordd yr Orsaf, Heol Maesteg, Lloyds Terrace, Avon Street a Railway Crescent
- Gweithredu croesfan a reolir gan signalau traffig
- Dargyfeirio ymgymerwyr statudol posibl gan gynnwys dŵr, carthffosydd, trydan, telathrebu a nwy
- Gwelliant arfaethedig i faes parcio Llyfrgell Gymunedol Cymer a maes parcio Newydd
- Y posibilrwydd o ddymchwel ac adleoli Canolfan Iechyd Cymer
- Troedffordd/llwybr beicio a rennir 3m o led arfaethedig
- Cynnal a chadw Pont Cymer

# Cynllun arfaethedig Cynllun Ailainio Cerbytffordd Cymer
# Proposed layout of the Cymmer Carriageway Realignment Scheme




ALLWEDD / KEY

| | | |
|---|---|---|
| Ffordd gerbydau<br>Carriageway | Gwaith pridd<br>Earthworks | Colofnau goleuo<br>Lighting Columns |
| Llwybr troed / Llwybr beicio a rhennir<br>Shared Footway/Cycleway | Man croesi wedi'i reoli<br>Controlled Crossing Point | Llwybr y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol NCN887<br>National Cycle Network Route NCN887 |
| Ymyl glaswellt<br>Grassed Verge | Man croesi heb ei reoli<br>Uncontrolled Crossing Point | Llwybr CNPT 23/CYM.1/1<br>NPT Route 23/CYM.1/1 |

# Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer
# Cymmer Carriageway Realignment Scheme

## Croestoriad hir Heol yr Orsaf i orllewin Maesteg Road
## Long Section Station Road to Maesteg Road West



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer
# Cymmer Carriageway Realignment Scheme

## Ffotogyfosodiadau / Photomontages

**Golygbwynt 1: Heol Maesteg yn edrych i'r gogledd-orllewin gan ddangos Heol yr Orsaf, llwybr drwodd newydd a'r gyffordd i lawr i Avon Street.**
**Viewpoint 1: Maesteg Road looking north-west showing Station Road, new through route and junction down toAvon Street.**



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer
# Cymmer Carriageway Realignment Scheme

## Ffotogyfosodiadau / Photomontages

**Golygbwynt 2: 'Tro Albion' yn edrych i'r gorllewin gan ddangos cysylltiad Avon Street a Maesteg Road â'r llwybr trwodd newydd.**
**Viewpoint 2: ‘Albion Bend’ looking west showing Avon Street and Maesteg Road link to the new through route.**



# Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer
# Cymmer Carriageway Realignment Scheme

## Ffotogyfosodiadau / Photomontages

**Golygbwynt 3: Heol yr Ysgol yn edrych i'r dwyrain yn dangos y llwybr drwodd newydd gyda'r gyffordd i lawr i'r Orsaf Dân a Heol yr Orsaf**
**Viewpoint 3: School Road looking east showing the new through route with junction down to the Fire Station and Station Road**



# Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer

**Pa fanteision fydd Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer yn eu cynnig?**

Wrth gyflawni Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer, ein hamcanion yw:

- Lleihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau traffig trwy gynlluniau priffyrdd gwell
- Lleihau'r angen i gerbydau deithio dros y pontydd â chyfyngiad pwysau trwy ddarparu llwybrau amgen, heb effeithio ar drafnidiaeth gyhoeddus
- Cynnal mynediad addas i gerbydau a cherddwyr i bentrefi Cymer, Glyncorrwg ac Abercregan a chyfleusterau a gwasanaethau allweddol eraill
- Darparu llwybrau traffig amgen addas i gymryd lle y rhai sy'n defnyddio Pont Cymer, y bwriedir ei chadw at ddefnydd cerddwyr a beicwyr yn unig

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer

## Amserlenni prosiect

**Mai-Mehefin 2026**

**Ymgynghoriad Cyhoeddus (6 wythnos):** Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn yn casglu adborth ar y cynigion a fydd yn cael eu defnyddio i ffurfio dyluniad y cynllun

**Haf 2026:**

**Dyluniad manwl** - Bydd y dyluniad terfynol yn cael ei ddatblygu, gan ystyried adborth ymgysylltiad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid

**Hydref 2026:**

**Ymgynghoriad cyn ymgeisio:** Bydd fersiynau drafft o'r dogfennau cynllunio yn cael eu cyflwyno, a chewch gyfle i rannu eich sylwadau.

**Gaeaf 2026**

**Cyflwyno Cais Cynllunio**

**Gaeaf 2026**

**Ymgynghoriad ar Gais Cynllunio:** Cyfle pellach i chi wneud sylwadau ar y cais a gyflwynwyd yn uniongyrchol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)

**Haf 2027**

**Adeiladu'r cynllun**

**Haf 2029**

**Cynllun ar agor i'w ddefnyddio**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer

## Sut ydw i'n darparu adborth?

### Cwblhewch holiadur adborth

Mae eich adborth yn bwysig i ni a bydd yn helpu i lunio ein cynigion. Rhannwch eich barn drwy lenwi'r holiadur sydd ar gael ar-lein neu mewn copïau papur yn y digwyddiadau.

Mae'r holiadur ar agor o ddydd Mercher 13 Mai i ddydd Mercher 24 Mehefin 2026.

Gellir cyrchu'r holiadur ar-lein hefyd trwy sganio'r cod QR hwn.

### E-bost

Gallwch hefyd anfon eich sylwadau drwy e-bost at cymmercr@wsp.com

Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer – Dweud Eich Dweud

**Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.**

**I gael mynediad i'r arddangosfa hon ar-lein, ewch i: https://www.npt.gov.uk/cy/cyngor/dweud-eich-dweud/ymgynghoriadau**